**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 03**
**Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg**
**Response from: Welsh Language Commissioner**

---

**Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg ar Fil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

## 1. Cyffredinol

1.1 Yn gyffredinol rydym yn cefnogi sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Mae'r dyhead i ddatblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol mwy effeithiol a chydlynol yn un sy'n cynnig cyfleoedd amlwg i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig bod y dyheadau hyn yn cyd-fynd ag amcanion Strategaeth Cymraeg 2050.

1.2 Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol i'w wneud i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol. Amlygodd fy *Adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg* fod ystadegau'r pum mlynedd diwethaf yn dangos mai ychydig iawn o gynnydd gwirioneddol sydd wedi bod mewn perthynas ag amcanion creiddiol Cymraeg 2050 yn y sector. Yn hanesyddol nid yw darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog y sector addysg ôl-orfodol wedi derbyn yr un buddsoddiad a'r pwyslais strategol o gymharu â'r sector addysg statudol. Mae'r sefyllfa hon wedi newid gryn dipyn yng nghyd-destun y sector addysg uwch ers ffurfio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011, ond mae'n deg dadlau bod angen mynd ymhellach, yn enwedig o ran darpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Mae sefydlu'r Comisiwn felly yn cynnig cyfle i bwyso a mesur y sefyllfa gyfredol, ac i osod fframweithiau a threfniadau mwy cadarn er mwyn sicrhau bod y sector ôl-orfodol yn ei gyfanrwydd yn cymryd camau breision i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## 2. Darpariaethau'r Bil ar gyfer y Gymraeg

**2.1 Dyletswyddau'r Comisiwn**

Ar y cyfan, rydym yn croesawu'r dyletswyddau a roddir ar y Comisiwn yn Rhan 1, 8 y Bil i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg; i annog pobl i gymryd rhan mewn addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg; i annog darparu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg gan ddarparwyr cofrestredig yng Nghymru, a gan bersonau eraill sy'n darparu addysg drydyddol a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo. Rydym fodd bynnag yn bryderus am eiriad y ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb galw rhesymol.

2.2 **Pob cam rhesymol ac ateb galw rhesymol**

Nid yw'n ddigonol nodi y bydd rhaid i'r Comisiwn gymryd 'pob cam rhesymol i sicrhau bod digon o addysg drydyddol yn cael ei darparu drwy gyfrwng y Gymraeg i ateb y galw rhesymol'. Mae'r ffaith bod darpariaeth addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn gyfyngedig iawn yn y gorffennol yn golygu bod angen mynd ati i hyrwyddo'r ddarpariaeth ac i annog unigolion i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Heb ganolbwyntio ar hyn, mae perygl y bydd 'ateb y galw rhesymol' yn arwain at ddiffyg cynnydd. Credwn felly y bydd angen i'r Comisiwn fod â ffocws strategol

pendant ar annog a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig yn y tymor byr a chanolig. Yn y cyd-destun hwn dylid canolbwyntio yn benodol ar ddilyniant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a hefyd werth sgiliau dwyieithog yn y byd gwaith yng Nghymru. Rydym felly yn cynnig y dylid newid geiriad y ddeddf i roi'r ddyletswydd ar y Comisiwn i sicrhau bod darpariaeth addysg drydyddol yn galluogi holl ddysgwyr/myfyrwyr Cymru i barhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o addysg statudol i addysg drydyddol. Mae hyn yn hollbwysig o ystyried y weledigaeth y bydd y sector yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant a lles cenedlaethol ac unigolion, gan y bydd sgiliau dwyieithog yn cynyddu cyflogadwyedd pobl.

**2.3 Cyllid**

Deallwn y gall Gweinidogion Cymru ddyrannu adnoddau ariannol i'r Comisiwn mewn perthynas â phob categori o addysg drydyddol ac y bydd y Comisiwn yn gallu dyrannu cyllid i ddarparwyr ar gyfer darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg ac i ddarparwyr ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Rydym yn gefnogol o'r gallu hwn i ddyrannu cyllid ond credwn fod angen ystyried y dulliau gorau o wneud hynny o safbwynt allbwn y ddarpariaeth yn sicrhau bod pobl yn cynnal a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg trwy Gymru gyfan.

**2.4 Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Rydym yn cefnogi'r gofyn ar y Comisiwn wrth sicrhau addysg bellach a hyfforddiant yn Rhan 3, 93, 1 (d) o safbwynt datblygu'r gweithlu i roi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyflogeion a chyflogeion posibl ar gael sy'n gallu cyflwyno darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg; ac (e) i roi sylw i'r addysg a'r hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau ar gael ar gyfer asesu drwy gyfrwng y Gymraeg a oes gan bersonau anghenion dysgu ychwanegol.

**2.4 Chweched dosbarth a darpariaeth Gymraeg yn lleol**

Deallwn fod addysg drydyddol er pwrpas y Bil yn cwmpasu chweched dosbarth. Yn wyneb diffyg darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16 yn ehangach, mae lle pwysig i ddosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg wrth gynnal a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion sydd wedi derbyn eu haddysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg a chyfrannu at ethos Gymraeg yr ysgolion hynny. Bydd angen i'r Comisiwn fod â dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o bwysigrwydd chweched dosbarth mewn ysgolion Cymraeg felly.

2.5 Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am ddyrannu cyllid ar gyfer chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol. Bwriedir rhoi'r gallu i'r Comisiwn, mewn amgylchiadau penodol, gyfarwyddo awdurdod lleol neu fwrdd llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol i agor neu gau chweched dosbarth mewn ysgol, neu wneud cynigion yn unol â chyfarwyddyd o'r fath. Bwriedir ymgynghori ar yr amgylchiadau a'r cyfyngiadau ar yr hyn a allai sbarduno'r Comisiwn i gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion a'u cynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol. Ein gobaith yw y bydd y systemau a'r prosesau hyn yn gwarchod ac yn hyrwyddo'r ddarpariaeth chweched dosbarth bresennol cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion Cymraeg.

2.6 Yn 13.32 ac 13.33 y memorandwm esboniadol eglurir y berthynas rhwng y Comisiwn â darparwyr ac awdurdodau lleol. Eglurir y cyflawnir y berthynas gan mwyaf, drwy negodi cytundebau deilliannau (ac eithrio lle mae'r ddarpariaeth a gwasanaethau'n cael eu sicrhau drwy gontractau). Eglurir y rhagwelir y bydd y rhain, i bob pwrpas, yn "gontractau perfformiad" i'w negodi rhwng y Comisiwn a darparwyr sy'n derbyn cyllid rheolaidd, a rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol mewn perthynas â'r cyllid a ddyrennir ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ysgolion. Mae cyfle amlwg yma i sicrhau bod darpariaeth Gymraeg yn rhan o'r contractau perfformiad hyn.

2.7 Eglurir yn 3.268 y memorandwm esboniadol y bydd 'y Comisiwn yn gyfrifol am lunio cwricwla lleol yn unol â'i gyfrifoldebau i gynllunio a chyllido addysg a hyfforddiant ôl-16 a sicrhau cyfleusterau priodol ar gyfer dysgwyr 16 i 19.' O safbwynt darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog mae'n debygol y bydd darparwyr addysg drydyddol, ar lefel leol beth bynnag, yn cystadlu i raddau am yr un dysgwyr a hefyd am gyllid gan y Comisiwn a'i bod yn bosibl y bydd chweched dosbarth a darparwyr addysg bellach yn cystadlu felly am yr un myfyrwyr ac adnoddau. Mae angen deall sut y bydd y contractau perfformiad a'r egwyddor o gwricwla lleol y bydd y Comisiwn yn ei lunio yn gweithio yn ymarferol o safbwynt darpariaeth Gymraeg yn lleol ac yn rhanbarthol felly. Bydd rhaid i unrhyw drefniadau a weithredir yn lleol hyrwyddo darpariaeth Gymraeg a bydd angen i'r Comisiwn fod â thystiolaeth gadarn a dealltwriaeth fanwl o'r ddarpariaeth ôl-16 yn lleol a dealltwriaeth o'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Byddem felly â diddordeb mewn gwybod sut y bydd y Comisiwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl a lleol o'r fath ac yn cydweithio â phartneriaid allweddol yn y cyswllt hwn. Dylid ystyried hefyd beth yw perthynas gwaith y Comisiwn yn datblygu cwricwla lleol â Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, yn benodol adrannau 13 ac 14 o Atodlen y rheoliadau.

**2.8 Safonau'r Gymraeg**

Croesawn y bwriad y bydd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017 yn cael eu diwygio i gynnwys y Comisiwn newydd. Mae'n hollbwysig bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r safonau o'r cyfle cyntaf posibl. Gwelwn yn ogystal y bydd y gofyniad i'r Comisiwn gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yn atgyfnerthu'r ddyletswydd sydd ar y Comisiwn i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**3. Addysg drydyddol Gymraeg yn sgil y Bil**

3.1 Er ein bod ar y cyfan yn croesawu cynnwys y Bil o safbwynt y Gymraeg mae'n debyg mai'r hyn fydd yn deillio o'r Bil fydd yn wirioneddol arwyddocaol o ran cyflawni'r amcanion lefel uchel sydd wedi'u cynnwys. Hynny yw, y mater allweddol fydd y gwaith o weithredu'r Bil, a sicrhau bod amcanion a gweledigaeth y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael eu gwireddu ar lawr gwlad. Credwn fod dau fater yn allweddol yn y cyd-destun hwn:

i. Sicrhau cyfeiriad strategol eglur a threfniadau atebolrwydd cadarn wrth sefydlu blaenoriaethau Gweinidogion Cymru, cynllun strategol y Comisiwn, ac yn amodau cofrestru a chytundebau deilliannau darparwyr addysg drydyddol.

ii. Sicrhau cyd-weithio effeithiol rhwng y Comisiwn a sefydliadau fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

3.2 Mae'r fframwaith strategol sy'n cael ei gynnig yn y Bil o ran gosod cyfeiriad i waith y Comisiwn a darparwyr addysg drydyddol yn un sy'n gyffredin mewn sawl maes polisi gwahanol. Bydd Gweinidogion Cymru yn gosod cyfeiriad strategol drwy gyhoeddi blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Comisiwn, bydd y Comisiwn yn llunio cynllun strategol yn seiliedig ar hyn, ac yn ei dro bydd y cynllun strategol hwn yn sail ar gyfer cyllido a threfnu darpariaeth addysg drydyddol, ac er mwyn adolygu ansawdd a pherfformiad y ddarpariaeth. Nid ydym yn anghytuno â'r fframwaith hwn, ond bydd angen i bob cam o'r fframwaith strategol roi sylw dyledus i faterion yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Y mater allweddol fydd sefydlu trefniadau monitro ac atebolrwydd cadarn er mwyn sicrhau bod y weledigaeth a'r amcanion lefel uchel yn arwain at newidiadau gwirioneddol ar lefel darparwyr o safbwynt y Gymraeg. Credwn y bydd y broses o lunio cynllun strategol y Comisiwn, a rôl cytundebau deilliannau ym mherthynas y comisiwn â'r darparwyr yn hollbwysig yn y cyd-destun hwn. Elfen arall hollbwysig fydd sicrhau y cesglir data mewn dull sy'n adlewyrchu gwir ddeilliannau ieithyddol myfyrwyr wrth iddynt ddilyn darpariaeth yn y sector a hynny er budd mesur llwyddiant a chynllunio a datblygu'r ddarpariaeth o fewn cyd-destun gweledigaeth Strategaeth Cymraeg 2050.

3.3 Rydym yn croesawu'r ffaith y bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i hyrwyddo addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn nodi'r ffaith y bydd rôl allweddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol yn y sector hwn yn parhau. Mae'r memorandwm esboniadol yn egluro y bydd Gweinidogion Cymru yn cyllido'r sefydliadau hyn yn uniongyrchol yn y tymor byr a chanolig. Eglurir fod Llywodraeth Cymru o'r farn pe bai'r cyllid ar eu cyfer yn cael ei ddyrannu i'r Comisiwn, y byddai risg sylweddol o golli'r cynnydd a wnaed gan y sefydliadau hyn o ran datblygu capasiti darparwyr i ddarparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Bydd rhaid sicrhau fod y cyllid sy'n cael ei ddarparu i'r ddau sefydliad hyn yn ddigonol felly er mwyn iddynt gyflawni amcanion y Bil hwn, ac amcanion mwy cyffredinol strategaeth Cymraeg 2050. Fodd bynnag, nodir y risg yn y memorandwm esboniadol pe bai Gweinidogion Cymru'n parhau i ddarparu cyllid i'r Coleg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y gallai hyn arwain at ddyblygu gwaith a defnydd aneffeithiol o adnoddau. Mae hyn yn tanlinellu'r angen i sicrhau fod y berthynas rhwng y Coleg a'r Ganolfan a'r Comisiwn yn glir a bod eglurder o ran rôl a chyfrifoldebau'r gwahanol sefydliadau. Bydd rhaid sicrhau bod modd cefnogi ac atgyfnerthu arbenigedd y Coleg a'r Ganolfan, ond hefyd sicrhau bod materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu prif ffrydio mewn i waith y Comisiwn, ac yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o swyddogaeth y Comisiwn.